# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Ionawr 2024** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio 2023** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried yr argymhellion ar gyfer newid Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, a Phobl a Threfniadaeth**

## Cefndir

O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i rannu ei ardal yn ddosbarthiadau etholiadol ac i ddynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth.

Gall y diffiniadau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ddarllen yr adroddiad a'r atodiadau.

- "Dosbarthiadau etholiadol" – ardaloedd daearyddol y gellir eu rhannu yn wardiau ac yn etholaethau.
- "Mannau pleidleisio" – adeiladau neu fannau sy'n cael eu dynodi gan y Cyngor fel lle i etholwyr y dosbarth etholiadol fynd i fwrw pleidlais.
- "Gorsafoedd pleidleisio" – nifer y desgiau dyroddi yn yr adeilad neu'r man sydd wedi'i ddynodi yn fan pleidleisio.

Cyflwynodd Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006, fel y'i diwygiwyd, ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain i adolygu eu dosbarthiadau etholiadau a'u mannau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

O dan adran 18C Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhaid cynnal adolygiad gorfodol o fewn cyfnod o 16 mis rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Ionawr 2025.

Bwriad y ddeddfwriaeth oedd y byddai adolygiadau'n cael eu cwblhau erbyn y mis Ionawr cyn etholiad cyffredinol seneddol y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, ers diddymu Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011, nid oes sicrwydd bellach pryd fydd yr etholiad cyffredinol nesaf.

## Y Broses Adolygu

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 5 Medi 2023 a chytunwyd i gychwyn yr adolygiad gorfodol o ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio ddydd Llun, 2 Hydref 2023. Cytunwyd hefyd ar amserlen ar gyfer yr adolygiad, gyda chyfnod yr ymgynghoriad ffurfiol yn dod i ben ar 10 Tachwedd 2023.

Y gofynion cyfreithiol
Mae'r broses ar gyfer adolygu dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio wedi'i nodi yn Atodlen A1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Rhaid i'r Cyngor:

- gyhoeddi hysbysiad ei fod yn cynnal adolygiad;
- ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer pob etholaeth seneddol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ei ardal;
- cyhoeddi pob sylw a wneir gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, a hynny yn swyddfa'r awdurdod lleol ac mewn o leiaf un lle amlwg yn yr ardal, a thrwy osod copi ar wefan yr awdurdod, os oes gan yr awdurdod wefan;
- ceisio sylwadau gan bobl y mae'n credu sydd ag arbenigedd penodol ynghylch sicrhau mynediad i safleoedd neu gyfleusterau i bobl sydd â gwahanol fathau o anabledd. Rhaid i'r bobl hyn gael cyfle i gyflwyno sylwadau ac i wneud sylw ar y sylwadau a wneir gan y Swyddog(ion) Canlyniadau (Gweithredol) (Atodiad B).

Ar adeg cwblhau'r adolygiad, rhaid i'r Cyngor roi rhesymau dros ei benderfyniadau a chyhoeddi'r canlynol:

- yr holl ohebiaeth a anfonwyd at Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â'r adolygiad (Atodiad A);
- yr holl ohebiaeth a anfonwyd at unrhyw berson y mae'n credu sydd ag arbenigedd penodol ynghylch sicrhau mynediad i safleoedd neu gyfleusterau i bobl sydd â gwahanol fathau o anabledd (Atodiad B);
- pob sylw a wnaed gan unrhyw berson mewn perthynas â'r adolygiad (Atodiad A);
- cofnodion unrhyw gyfarfod a gynhaliwyd gan y Cyngor i ystyried unrhyw newid i'r dosbarthiadau etholiadol a'r mannau pleidleisio a ddynodwyd yn ei ardal o ganlyniad i'r adolygiad;
- manylion y dosbarthiadau etholiadol a'r mannau pleidleisio a ddynodwyd yn ardal yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r adolygiad;
- manylion y llefydd lle cyhoeddwyd canlyniadau'r adolygiad.

**Materion allweddol i'w hystyried**
Cynhaliwyd adolygiad rhagarweiniol o'r dosbarthiadau etholiadol, y mannau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio presennol yn ardal Ceredigion ac mewn perthynas â'r etholaeth seneddol, gyda'r bwriad o brofi eu haddasrwydd, a nodi unrhyw ddewisiadau eraill posibl lle bernir eu bod yn addas.

Wrth asesu'r trefniadau presennol, ystyriwyd lleoliad, maint, argaeledd a hygyrchedd y mannau a'r gorsafoedd pleidleisio. Yn ogystal, ystyriwyd unrhyw bryderon a godwyd mewn etholiadau blaenorol ynghylch lleoliad, maint ac addasrwydd rhai o'r gorsafoedd pleidleisio.

**Yr Ymgynghoriad**
Derbyniwyd 16 ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â sylwadau a chynigion y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

(Noder nad yw manylion personol aelodau'r cyhoedd wedi'u cynnwys; fodd bynnag, os yw'r sylwadau gan gyrff cynrychioladol, megis Cynghorau, Cynghorwyr, Aelod o'r Senedd, Aelod Seneddol ac ati, maent wedi'u henwi yn yr adroddiad.)

**Y Cynigion**

Ystyriwyd yr holl sylwadau a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol. Ar sail hynny, cynigir gwneud y newidiadau canlynol i'r Mannau a'r Gorsafoedd Pleidleisio:

| | |
|---|---|
| Symud o Adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth i Ganolfan Morlan, Aberystwyth | Nid yw Adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth ar gael ar hyn o bryd oherwydd materion strwythurol. Yn ogystal, mae prinder parcio yn y lleoliad hwn.<br><br>Felly cynigir y dylid symud y Man Pleidleisio a'r Orsaf Bleidleisio i Ganolfan Morlan.<br><br>Mae Canolfan Morlan y tu allan i ardal y gymuned, ond mae yng nghanol Aberystwyth ac o fewn pellter cerdded byr. Yn ogystal, mae gan Ganolfan Morlan ei hardal barcio ei hun. |
| Symud o Neuadd Eglwys Llanwnnen i Ysgol Cwrtnewydd | Nid yw'r Orsaf Bleidleisio yn bodloni gofynion Deddf Etholiadau 2022. Yn ogystal, mae nifer yr etholwyr yn isel.<br><br>Felly cynigir y dylid symud y man pleidleisio / gorsaf bleidleisio i Ysgol Cwrtnewydd oherwydd bod diffyg opsiynau ar gael yn y Dosbarth Etholiadol. |
| Symud o Neuadd Gymunedol Betws Ifan i Festri Capel Beulah | Mae nifer yr etholwyr yn isel iawn ac mae cyfran uchel yn pleidleisio drwy'r post.<br><br>Yn ogystal, mae problemau gyda'r adeilad.<br><br>Mae'r ddwy orsaf bleidleisio o fewn yr un gymuned.<br><br>Cefnogwyd hyn yn un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. |
| Symud o Festri Capel Bryngwyn i Festri Capel Beulah | Yn sgil y nifer isel o etholwyr, nid yw'n gost effeithiol fel man pleidleisio / gorsaf bleidleisio.<br><br>Felly cynigir y dylid symud y man pleidleisio / gorsaf bleidleisio i Festri Capel Beulah.<br><br>Cefnogwyd hyn yn un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. |

| | |
|---|---|
| Symud o Neuadd Eglwys Llandygwydd i Festri Capel Beulah | Yn sgil y nifer isel o etholwyr, nid yw'n gost effeithiol fel man pleidleisio / gorsaf bleidleisio.<br><br>Felly cynigir y dylid symud y man pleidleisio / gorsaf bleidleisio i Festri Capel Beulah.<br><br>Cefnogwyd hyn yn un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. |
| Symud o Neuadd Llangybi i'r Ganolfan Gymunedol yn Ysgol y Dderi, Llangybi | Mae problemau yn yr adeilad, gan gynnwys problemau gyda'r toiledau, y gegin a'r pibellau dŵr.<br><br>Felly cynigir y dylid symud y man pleidleisio / gorsaf bleidleisio i'r Ganolfan Gymunedol yn Ysgol y Dderi, Llangybi. |
| Symud o Neuadd y Paith i Neuadd y Pentref, Llanfarian | Yn sgil y nifer isel o etholwyr, nid yw'n gost effeithiol agor yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio.<br><br>Felly cynigir y dylid cyfuno'r man pleidleisio / gorsaf bleidleisio â Neuadd y Pentref, Llanfarian. |
| Symud o Festri Capel Llwyncelyn i'r Ysgubor, Fferm Bargoed | Mae problemau hygyrchedd o ran y toiledau a'r mynediad at yr adeilad. Ni all Neuadd y Pentref roi sicrwydd mai dim ond yr orsaf bleidleisio fyddai yn yr adeilad ar y diwrnod pleidleisio, sy'n peryglu uniondeb yr etholiad.<br><br>Felly cynigir y dylid symud y man pleidleisio / gorsaf bleidleisio i'r Ysgubor, Fferm Bargoed (rydym wedi cael sicrwydd mai dim ond yr orsaf bleidleisio fyddai yn yr adeilad ar y diwrnod pleidleisio). |
| Symud o Neuadd Eglwys Llanarth i'r Ysgubor, Fferm Bargoed | Cynigir y dylid symud y man pleidleisio / gorsaf bleidleisio i'r Ysgubor, Fferm Bargoed (rydym wedi cael sicrwydd mai dim ond yr orsaf bleidleisio fyddai yn yr adeilad ar y diwrnod pleidleisio). |
| Symud o Ganolfan y Dyffryn i Neuadd Aberporth | Roedd Canolfan y Dyffryn yn Orsaf Bleidleisio dros dro tra bod Neuadd Aberporth yn cael ei hadnewyddu.<br><br>Felly cynigir y dylai'r orsaf bleidleisio symud yn ôl i Neuadd Aberporth, sydd â darpariaeth addas o ran hygyrchedd a pharcio. |

Os na fydd y Gorsafoedd Pleidleisio canlynol ar gael am nifer o resymau, gan gynnwys gwaith adnewyddu, y trefniadau fydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tŷ'r Harbwr, Trefechan | Clwb Pêl-droed Aberystwyth |
| Canolfan Steffan, Cribyn | Neuadd Goffa Felinfach |
| Neuadd Aberporth | Canolfan y Dyffryn |

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**
Do.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y Mannau / Gorsafoedd Pleidleisio mwyaf priodol wedi'u dynodi i ddiwallu anghenion y gymuned am y 5 mlynedd nesaf.

**Cydweithio:** Gwnaed gwaith gyda chymunedau i nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer y Mannau / Gorsafoedd Pleidleisio.

**Cynnwys:** Dechreuodd yr ymgynghoriad statudol ar 2 Hydref 2023 a daeth i ben ar 10 Tachwedd 2023.
Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor, cafodd ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ac anfonwyd yr ymgynghoriad yn uniongyrchol at y sawl a restrir yn Atodiad B yr adroddiad i'r Cyngor. Roedd hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall a phrint bras, ac roedd copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd.

**Atal:** Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y Mannau / Gorsafoedd Pleidleisio mwyaf priodol wedi'u dynodi i ddiwallu anghenion y gymuned am y 5 mlynedd nesaf.

**Integreiddio:** Amherthnasol.

**Argymhellion:**

a) **Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r Dosbarthiadau Etholiadol;**

b) **Dylid gwneud y newidiadau canlynol i'r Mannau Pleidleisio a'r Gorsafoedd Pleidleisio:**
- **Symud o Adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth i Ganolfan Morlan, Aberystwyth;**
- **Symud o Neuadd Eglwys Llanwnnen i Ysgol Cwrtnewydd;**
- **Symud o Neuadd Gymunedol Betws Ifan i Festri Capel Beulah;**
- **Symud o Festri Capel Bryngwyn i Festri Capel Beulah;**
- **Symud o Landygwydd i Festri Capel Beulah;**
- **Symud o Neuadd Llangybi i'r Ganolfan Gymunedol yn Ysgol y Dderi;**
- **Symud o Neuadd y Paith i Neuadd y Pentref, Llanfarian;**
- **Symud o Festri Capel Llwyncelyn i'r Ysgubor, Fferm Bargoed;**
- **Symud o Neuadd Eglwys Llanarth i'r Ysgubor, Fferm Bargoed;**
- **Symud o Ganolfan y Dyffryn i Neuadd Bentref Aberporth.**

c) **Dylid rhoi trefniadau wrth gefn ar waith ar gyfer y Gorsafoedd Pleidleisio canlynol:**
- **Tŷ'r Harbwr, Trefechan i ddefnyddio Clwb Pêl-droed Aberystwyth;**

- **Canolfan Steffan, Cribyn i ddefnyddio Neuadd Goffa Felinfach;**
- **Neuadd Aberporth i ddefnyddio Canolfan y Dyffryn.**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei oblygiadau statudol.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Amherthnasol

**Fframwaith Polisi:**
- Cyfansoddiad y Cyngor;
- Adran 18 ac 18A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983;
- Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (fel y'i diwygiwyd).

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Amherthnasol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Dim.

**Goblygiadau Cyfreithiol:**
Cydymffurfio â'r canlynol:
- Adran 18 ac 18A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983;
- Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Etholiadau 2022.

**Goblygiadau o ran Staff:**
Dim.

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:**
Dim.

**Risg(iau):**
Methu â bodloni'r gofynion deddfwriaethol.

**Pwerau Statudol:**
- Adran 18 ac 18A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (fel y'i diwygiwyd).

**Papurau Cefndir:**
- Adroddiad Cabinet, 5 Medi 2023
- Papurau ymgynghori

**Atodiadau:**
- Atodiad A: Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Swyddog Canlyniadau Gweithredol;
- Atodiad B: Rhestr o'r Rhanddeiliaid / Ymgyngoreion;
- Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig.

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddog Adrodd:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:**
8 Rhagfyr 2023